

Cylchlythyr Partneriaid Mis Mai

Croeso i'n cylchlythyr sy'n darparu gwybodaeth a diweddariadau sy'n ymwneud â chefnogaeth PACEY ar gyfer gwarchodwyr plant a darpar warchodwyr plant mewn perthynas â COVID-19 i'w rhannu â darparwyr yn eich awdurdod lleol



Edrych ymlaen

Wrth i feddyliau droi tuag at gam nesaf y cynllunio ar gyfer ailagor rydym yn brysur yn gweithio ar wybodaeth, cefnogaeth ac arweiniad i warchodwyr plant. Rydym yn deall y bydd y daith tuag at ailagor yn unigol ar gyfer pob lleoliad fel yr amlygir yn ein Blog ar **i ailagor ai peidio?** Byddwn yn ceisio rhannu mwy o wybodaeth gyda chi unwaith y bydd gennym gyfres o ganllawiau a gwybodaeth wedi'u cyhoeddi ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio yng Nghymru yn ein **pecyn cymorth ailagor ar gyfer lleoliadau**. Yn y cyfamser, os gallwn fod o gymorth yna cysylltwch â ni.

Addasu chwarae mewn lleoliad cartref

Mae yna nifer o warchodwyr plant sy'n dal i weithio i ddarparu gofal i blant gweithwyr critigol a phlant sy'n agored i niwed. Mae PACEY Cymru wedi clywed am enghreifftiau gwych am sut mae gwarchodwyr plant yn gweithio ar sut y maen nhw'n cefnogi'r plant yn eu gofal yn ogystal ar waith ynghlwm a pharhau bod mewn cyswllt â'r plant a theuluoedd nad ydynt yn gallu mynychu'r gofal plant ar hyn o bryd. Er mwyn cefnogi'r rhai sy'n gofalu am blant sydd â mynediad cyfyngedig i adnoddau o dan y cyfyngiad cyfredol, rydym wedi cyhoeddi Blog ar addasu chwarae mewn lleoliad cartref. **Darllenwch fwy yma.**

Gwybodaeth coronafirws ar gyfer gwarchodwyr plant

Rydym wedi bod yn darparu gwybodaeth i warchodwyr plant mewn perthynas â Coronafirws yn ein **'Spotlight on Coronavirus'**, sy'n cynnwys **gwybodaeth benodol ar gyfer Cymru a Chwestiynau Cyffredin Cymru**. Mae'r rhain yn cael eu diweddarwrth i wybodaeth newydd ddod drwodd i ni ac rydym yn rhannu diweddariadau rheolaidd am hyn gydag aelodau trwy e-fwletinâu ac ar ein tudalen Facebook PACEY Cymru. **Darllenwch fwy yma.**

Effaith ariannol ar warchodwyr plant

Nododd canfyddiadau arolwg diweddar PACEY a gwblhawyd gan 5,000 o warchodwyr plant yng Nghymru a Lloegr bydd gwarchodwyr plant yn colli allan ar gefnogaeth y Llywodraeth. Datgelodd yr arolwg fod bron i hanner (40%) y gwarchodwyr plant yn dweud nad ydyn nhw'n hyderus, a bod mwyafrif llethol (69%) y gwarchodwyr plant yng Nghymru wedi gwneud elw o dan £ 10,000 dros y tair blynedd diwethaf. Canfu'r arolwg hefyd na fydd gwarchodwyr plant mwy newydd (18% o ymatebwyr yr arolwg) yn derbyn dim neu symiau is o dan y Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth cyfredol (SEISS: Self-Employment Income Support Scheme). **Darllenwch fwy yma.**

Canllawiau Cofrestru Addasedig AGC

Mewn ymateb i COVID-19 mae AGC wedi cyhoeddi **Canllawiau Cofrestru Addasedig i ymgeiswyr a ddarparwyr** yng Nghymru. Dywed AGC "Rydym yn cydnabod y bydd angen cynyddu capasiti yn y sector gofal cymdeithasol a'r sector gofal plant a chwarae mewn ymateb i argyfwng COVID-19. Er ein bod wedi gohirio ein trefn arolygu arferol, byddwn yn blaenoriaethu gwaith cofrestru ac amrywio ac yn dargyfeirio adnoddau ychwanegol iddo". **Darllenwch fwy yma.**

Gweminarau Sesiynau briffio

Mae gweminar sesiynau briffio yn parhau i gael eu cynnal yn aml i'r rheini sydd â diddordeb i ddod yn warchodwr plant cofrestredig. Wrth gael mynediad digidol o gysur cartref, bydd ein sesiynau briffio drwy weminar rhyngweithiol yn galluogi'r rhai sydd â diddordeb mewn gwarchod plant i ddarganfod mwy am y rôl a'r gofynion ac ystyried ai dyma'r yrfa iawn iddyn nhw. **Darllenwch fwy yma.**

Hyfforddiant cyn-gofrestru ar-lein

Mae PACEY Cymru yn cynnig opsiwn ar-lein ar gyfer ein hyfforddiant gofal plant yn y cartref yng Nghymru. Mae dau becyn gwahanol o hyfforddiant ar gael, un ar gyfer y rhai sy'n edrych i gofrestru fel gwarchodwr plant yng Nghymru ac un ar gyfer nanis yng Nghymru. Bydd ein dewis dysgu ar-lein yn galluogi'r rhai sydd eisieu bwrw ymlaen â'u cynlluniau i wneud hyn yn ddiogel o gysur y cartref. **Darllenwch fwy yma.**

Gweminarau Cymorth cyn-gofrestru

Mae gan PACEY Cymru wedi trefnu cyfres o weminarau cymorth cyn-gofrestru yn cynnwys `ysgrifennu eich datganiad o bwrpas', `ysgrifennu eich polisiau a'ch gweithdrefnau' a `chwblhau'ch cais i AGC'. Y gost i unigolion yw £10 y weminar neu £25 am y tri. **Darllenwch fwy yma.**

Mae'r sector yn ymateb i ymchwiliad anhveg ACM i ddarparwyr gofal plant

Mae PACEY, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) a Chymdeithas Gwarchod Plant yr Alban (SCMA) wedi ysgrifennu llythyr ar y cyd at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn gofyn am eglurhad brys ganddynt ynghylch sut y bydd yr ymchwiliad i ddarparwyr addysg gynnar a gofal plant, ac hefyd ein bod yn cael ein cynnwys wrth symud ymlaen. **Darllenwch y stori lawn a'r llythyr yma.**

Ac yn olaf.....

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu wybodaeth yr hoffech i ni eu rhannu drwy'n cylchlythyr chwarterol, ffoniwch PACEY Cymru ar 02920 351407 neu anfonwch e-bost atom ar paceycymru@pacey.org.uk.